

Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig

Negeseuon Allweddol a Chamau Gweithredu

Teitl y Cyfarfod	Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig			Dyddiad	02.02.2018
Rhif y Cyfarfod	9	Amser Dechrau	10:30	Amser Gorffen	14:30
Presennol	Graham Rees (Llywodraeth Cymru - Cadeirydd), Louise George (Llywodraeth Cymru), Richard Lowcock James (Llywodraeth Cymru), Alison Palmer Hargrave (ACA Pen Llŷn a'r Sarnau – cynghorydd i'r Grŵp Llywio), Trevor Theobald (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru/Cyngor Sir Penfro), Jonathan Monk (Grŵp Porthladdoedd Cymru/Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau), Helen Bloomfield (Cyfoeth Naturiol Cymru), Maggie Hatton-Ellis (Cyfoeth Naturiol Cymru - cynghorydd), Rhian Jardine (Cyfoeth Naturiol Cymru), Lindsey Powles (Llywodraeth Cymru).				
Telegynadledda	Eve Read (Dŵr Cymru), Michel Regelous (Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro/Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri)				
Ymddiheuriadau	Rosie Kelly (Ystâd y Goron), Tegryn Jones (Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro/Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri)				

Eitemau'r Agenda	
1.	Croeso a threfniadaeth
2.	Pontio'r UE (diweddariad llafar)
3.	Negeseuon allweddol a chamau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf (papur 1)
4.	Fframwaith Rheoli'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchoddedig (papur 2) <ul style="list-style-type: none">• Safbwyntiau ar y fersiwn ddiweddaraf• Llunio'r Cynllun Gweithredu• Ymgysylltu
5.	Adborth ar adroddiadau cyflwr safleoedd lefel nodweddion dangosol CNC
6.	Camau gweithredu Llywodraeth Cymru mewn ymateb i adroddiad ymchwiliad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig (papur 3)
7.	Adolygiad o gylch gorchwyl y Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig (papur 4)
8.	Eitemau i'w nodi, unrhyw fater arall a dyddiad y cyfarfod nesaf

Cyflwyniad

Mae'r Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig (MPAMSG) yn cydgysylltu'r gwaith o reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn strategol ym moroedd Cymru. Mae'r Grŵp yn darparu cyngor, arweiniad a chyfeiriad cyfunol i awdurdodau sy'n rhoi camau rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig ar waith. Mae'n hyrwyddo rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn effeithiol, ac mae'n ceisio codi proffil rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig a chynyddu nifer yr awdurdodau rheoli a rhanddeiliaid ehangach sy'n mabwysiadu'r dull ledled Cymru.

Mae aelodau'r MPAMSG yn cynnwys awdurdodau rheoli allweddol yng Nghymru, yn unol â diffiniad Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017.

Cynhaliwyd nawfed cyfarfod y Grŵp Llywio ar 2 Chwefror 2018 yn Swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn Aberystwyth. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys negeseuon allweddol a chymau gweithredu o'r cyfarfod. Mae aelodau'r Grŵp Llywio yn gyfrifol am ledaenu negeseuon cyson i'w rhwydweithiau perthnasol.

Os hoffech chi drafod unrhyw un o eitemau'r agenda yn fanylach, dylech gysylltu ag arweinydd eich sector. Os hoffech chi dderbyn manylion cyswllt arweinydd eich sector, cysylltwch â Blwch Negeseuon E-bost Gweinidog y Môr a Physgodfeydd :
(MarineandFisheriesMinisterialMailbox@gov.wales)

Negeseuon Allweddol a Chamau Gweithredu

Eitem 2: Pontio'r UE (diweddariad llafar)

Negeseuon allweddol	Camau gweithredu
Derbyniodd aelodau'r Grŵp Llywio ddiweddariad llafar ar gynnydd yn ymwneud â'r paratodau i adael yr UE.	Ddim yn berthnasol

Eitem 3: Negeseuon allweddol a chamau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf (papur 1)

Negeseuon allweddol	Camau gweithredu
Cytunodd holl aelodau'r Grŵp Llywio fod y negeseuon allweddol a chamau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf yn gofnod cywir. Ystyriwyd bod yr holl gamau gweithredu wedi'u cyflawni. Yn y dyfodol, bydd negeseuon allweddol a chamau gweithredu yn cael eu cytuno mewn gohebiaeth fel bod modd eu cyhoeddi'n gynt ar wefan Llywodraeth Cymru.	Ddim yn berthnasol

Eitem 4: Fframwaith Rheoli'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchoddedig (papur 2)

Negeseuon allweddol	Camau gweithredu
<p>Aeth aelodau'r Grŵp ati i drafod fersiwn ddiweddaraf y Fframwaith drafft a chyflwyno nifer o awgrymiadau i wella'r ddogfen, gan gynnwys Geirfa a thabl i ddangos y camau rheoli sydd ar waith ar hyn o bryd.</p> <p>Hefyd, trafododd y Grŵp gynnwys posibl adran Cynllun Gweithredu'r Fframwaith, gan ganolbwyntio ar gamau gweithredu a fyddai'n fanteisiol i nifer o safleoedd neu ar lefel</p>	<ol style="list-style-type: none">1. RLJ i ledaenu fersiwn ddiwygiedig o'r Fframwaith i aelodau'r Grŵp Llywio erbyn 8 Chwefror.

<p>genedlaethol; byddai hyn yn cynnwys camau gweithredu lleol sydd â'r potensial i'w cyflwyno ar raddfa ehangach.</p> <p>Trafodwyd ymgysylltu ehangach, gan gynnwys y posibilrwydd o gael aelodau'r Grŵp Llywio i roi cyflwyniad ar y Fframwaith yn un o gyfarfodydd Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol yn y dyfodol.</p> <p>Yn amodol ar brosesau cymeradwyo mewnol yn eu sectorau/sefydliadau perthnasol, cadarnhaodd aelodau'r Grŵp y byddai'r Fframwaith terfynol yn cael ei gyhoeddi gan y Grŵp Llywio a'r sefydliadau sy'n aelodau ohono, yn hytrach na gan Lywodraeth Cymru.</p> <p>Y cam nesaf y cytunwyd arno oedd ailddrafftio'r Fframwaith ar sail y sylwadau a gyflwynwyd yn y cyfarfod, a lledaenu'r Fframwaith diwygiedig i aelodau er mwyn derbyn rhagor o sylwadau arno.</p>	
--	--

Eitem 5: Adborth ar adroddiadau cyflwr safleoedd lefel nodweddion dangosol CNC:

Negeseuon Allweddol	Camau gweithredu
<p>Cafwyd adborth cadarnhaol gan aelodau'r Grŵp Llywio ar adroddiadau cyflwr safleoedd lefel nodweddion dangosol CNC, a chadarnhawyd eu bod eisoes yn cael eu defnyddio gan rai awdurdodau rheoli i ddylanwadu ar raglenni gwaith ar lefel safleoedd.</p>	<p>Ddim yn berthnasol</p>

Eitem 6: Camau gweithredu Llywodraeth Cymru mewn ymateb i ymchwiliad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig i reoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig (papur 3)

Negeseuon Allweddol	Camau gweithredu
<p>Derbyniodd y Grŵp Llywio'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau sydd wedi'u rhoi ar waith gan Lywodraeth Cymru, a'r camau arfaethedig, mewn ymateb i argymhellion</p>	<p>2. LG i ledaenu'r dadansoddiad o'r bylchau yn y rhwydwaith a gwblhawyd gan y</p>

adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig yn deillio o'i ymchwiliad i reoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig.	Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur. 3. MHE i ledaenu'r ddolen i amcanion cadwraeth drafft ACA llamidyddion.
---	--

Eitem 7: Adolygiad o gylch gorchwyl y Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig (papur 4)

Negeseuon Allweddol	Camau gweithredu
<p>Trafodwyd y Cylch Gorchwyl gan y Grŵp Llywio, a chytunwyd y dylid gwahodd y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur i ymaelodi â'r Grŵp, o ystyried y ffaith fod cylch gwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer cadwraeth alltraeth wedi'i ymestyn.</p> <p>Cytunodd cynrychiolwyr CLILC a Grŵp Porthladdoedd Cymru i ofyn i'w sefydliadau a fyddai'n fanteisiol cael cynrychiolaeth gan sectorau eraill ar y Grŵp.</p>	<p>4. RLJ i wahodd y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur i anfon cynrychiolydd i gyfarfodydd y Grŵp yn y dyfodol.</p> <p>5. TT a JM i drafod cael cynrychiolwyr o sectorau eraill ar y Grŵp gyda'u sefydliadau.</p>

Eitem 8: Eitemau i'w nodi, unrhyw fater arall a dyddiad y cyfarfod nesaf

Negeseuon Allweddol	Camau gweithredu
Derbyniodd y Grŵp wybodaeth gryno am y Datganiadau o Ddiddordeb a dderbyniwyd ar gyfer cyllid Cynlluniau Comisiynu CNC.	6. RLJ i ledaenu Arolwg Doodle ar gyfer y cyfarfod nesaf.